
Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynllunio er mwyn gofalu am ddiogelwch gwylwyr mewn digwyddiadau ac mewn mannau poblog. Mae'n ymdrin ag adnabod peryglon a bygythiadau, asesu'r risgiau ynghlwm a rhagnodi'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli'r rhain.

Prif ddeilliannau'r safon hon ydy:

1. Cynllunio ar gyfer digwyddiadau
2. Cynhyrchu, gweithredu, adolygu a gwerthuso cynlluniau

Mae'r safon hon ar gyfer staff sy'n meddu ar gyfrifoldeb cyffredinol dros ddiogelwch y cyhoedd mewn digwyddiadau i wylwyr a mannau poblog.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Cynllunio ar gyfer digwyddiadau

1. casglu'r holl **wybodaeth** am y lleoliad a'r digwyddiad
2. cyfrifo y mwyafswm o bobl all fod yn y lleoliad yn ddiogel
3. cynhyrchu gweithdrefnau yn ymwneud â'r digwyddiad yn unol â'r polisiau cyfundrefnol
4. trin a thrafod gyda **rhanddeiliaid**
5. asesu effaith **gosodiadau dros dro ar gyfer y digwyddiad**

Cynhyrchu, gweithredu, adolygu a gwerthuso cynlluniau

6. cytuno ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau er mwyn cyflwyno'r cynllun gweithredol gyda'r prif **randdeiliaid**
7. dewis, blaenoriaethu a threfnu tasgau er mwyn bodloni'r amcanion hyn
8. asesu a phrisio'r adnoddau angenrheidiol
9. dilyn gweithdrefnau cyfundrefnol er mwyn asesu dylanwadau a phwysau mewnol ac allanol sy'n gysylltiedig â'ch cynllun.
10. asesu risgiau a goblygiadau yn ymwneud â'ch cynllun
11. cofnodi eich cynlluniau gweithredol
12. rhoi dulliau monitro a gwerthuso mewn lle
13. cyflwyno eich cynlluniau drafft i **randdeiliaid** a phrif wneuthurwyr penderfyniadau
14. trafod newidiadau i'ch cynlluniau gweithredol yn sgil adborth gan y rhanddeiliaid
15. cofnodi a gweithredu'r cynllun sydd wedi'i gytuno arno
16. adolygu a diwygio cynlluniau yn unol ag anghenion y digwyddiad
17. hysbysu'r **rhanddeiliaid** o unrhyw newidiadau i'r cynllun cytunedig.

-
18. gwerthuso effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd eich cynlluniau
 19. datblygu a chofnodi casgliadau ac argymhellion er mwyn gwella eich cynlluniau

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Cynllunio ar gyfer digwyddiadau

1. yr holl ofynion cyfreithiol, statudol a chyfundrefnol yn ymwneud â rheoli diogelwch ac amddiffyniaeth mewn digwyddiadau a mannau poblog
2. mathau a ffynhonellau gwybodaeth i'w casglu, gan gynnwys gwybodaeth am ddigwyddiadau blaenorol a data hanesyddol
3. pa arweiniad sydd ar gael a ffactorau i'w hystyried er mwyn cyfrifo'r mwyafswm posib o bobl mewn lleoliad sy'n ddiogel.
4. sut i gyfrifo'r mwyafswm posib o bobl sy'n ddiogel gan defnyddio'r holl ddata sydd ar gael yn ymwneud â phobl yn cyrraedd a gadael y digwyddiad, eu symudiadau a gwasgariad.
5. pwysigrwydd cyfrifo'r mwyafswm posib o bobl sy'n ddiogel ar gyfer unrhyw ddigwyddiad.
6. pa arweiniad sydd ar gael er mwyn cynhyrchu polisïau a gweithdrefnau cyfundrefnol digwyddiadau
7. sut i gynhyrchu polisïau a gweithdrefnau cyfundrefnol ar gyfer digwyddiadau
8. y **rhanddeiliaid** ddylech chi ymwneud â nhw wrth ddatblygu cynlluniau
9. pwysigrwydd sefydlu cysylltiad parhaus gyda **rhanddeiliaid**
10. pwysigrwydd ystyried goblygiadau gosodiadau'r digwyddiad

Cynhyrchu, gweithredu, adolygu a gwerthuso cynlluniau

11. sut i ddewis adnoddau ar gyfer effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd
12. sut i adnabod, asesu a phrisio math yr adnoddau a'r nifer angenrheidiol ar gyfer pob digwyddiad
13. y mathau o **ddylanwadau a phwysau** sy'n gysylltiedig â chynlluniau gweithredol a sut i asesu a rheoli'r rhain
14. y mathau o risgiau ynghlwm â chynlluniau gweithredol a sut i asesu a rheoli'r rhain

-
15. pwysigrwydd ennill cefnogaeth **rhanddeiliaid** ar gyfer eich cynlluniau
 16. dulliau o gofnodi eich cynllun mewn ffurf gytunedig
 17. sut i weithredu'ch cynlluniau
 18. pwysigrwydd adolygu a diwygio eich cynlluniau yn ddynamig gan gynnwys adolygu eu heffeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.
 19. pam ei fod yn bwysig rhoi gwybod am newidiadau i'r cynllun a phwy ddylech chi eu hysbysu
 20. dulliau hysbysu'r holl rhanddeiliaid am newidiadau i'r cynllun sydd wedi'i gytuno arno
 21. ffyrdd o gofnodi casgliadau a datblygu argymhellion
 22. pwysigrwydd casglu adborth y **rhanddeiliaid**
 23. prosesau ar gyfer diweddarau a chynnal a chadw cynlluniau

Cwmpas/Ystod

GWYBODAETH YCHWANEGOL

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae disgwyl y bydd gan fudiadau weithdrefnau a chanllawiau i'w staff stiwardio gydymffurfio gyda nhw a fydd yn bodloni'r gofynion canlynol o leiaf:

- anghenion corfforol amrywiol
- anghenion diwylliannol amrywiol
- anghenion ieithyddol
- credoau

Diogelwch, Amddiffyn a Gwasanaeth

Mae disgwyl caiff yr holl wasanaethau mewn digwyddiadau gyda gwylwyr ac mewn mannau poblog eu cyflawni yn unol â'r mesurau isod:

Mesurau diogelwch: unrhyw fesur a gaiff eu dylunio a'u rhoi ar waith gyda'r prif nod o ddiogelu iechyd a lles yr holl grwpiau cleient sy'n mynychu, neu'n cymryd rhan mewn digwyddiadau.

Mesurau amddiffyn: unrhyw fesur a gaiff eu dylunio a'u rhoi ar waith gyda'r prif nod o atal, lleihau'r risg a/neu ymateb i unrhyw weithgareddau troseddol neu anghyfreithlon neu aflonyddwch yn gysylltiedig â'r digwyddiadau.

Mesurau gwasanaeth: unrhyw fesur a gaiff eu dylunio a'u rhoi ar waith gyda'r prif nod o ofalu bod yr holl grwpiau cleient yn teimlo'n gyfforddus, wedi'u gwerthfawrogi a bod croeso iddyn nhw pan maen nhw'n mynychu digwyddiadau.

Lefelau Bygythiadau Terfysgaeth ym Mhrydain

Mae disgwyl bod uwch stiwardiaid, swyddogion diogelwch a staff tebyg sy'n meddu ar gyfrifoldeb cyffredinol dros ddiogelwch ac amddiffyniaeth digwyddiadau yn gyfarwydd gyda'r lefelau bygythiadau terfysgaeth cyffredol ym Mhrydain.

Mae'r lefel o fygythiad yn dynodi tebygolrwydd o ymosodiad terfysgol ym Mhrydain. Mae 5 lefel o fygythiadau:

- ISEL – mae ymosodiad yn annhebygol
- CYMEDROL- mae ymosodiad yn bosib ond nid ydyw'n debygol
- SYLWEDDOL – mae ymosodiad yn bosib iawn
- DIFRIFOL – mae ymosodiad yn debygol iawn
- ARGYFYNGUS – mae disgwyl y bydd ymosodiad ar ddigwydd

Caiff y lefel ei bennu gan y Cyd-Ganolfan Dadansoddi Terfysgaeth a'r Gwasanaeth Diogelwch (MI5). Does dim dyddiad dod i ben ar gyfer lefel bygythiad, ond fe allan nhw newid ar unrhyw adeg wrth i wahanol wybodaeth fod ar gael i asiantiaid diogelwch.

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

**** **Gwybodaeth** (ymdrin â phob un) 1. natur y digwyddiad a rhaglen 2. trefniadau cyrraedd a gadael ar gyfer grwpiau cleientiaid 3. cynllun a strwythur y lleoliad, y mwyafswm posib o bobl a all fod yn y lleoliad a'r asesiadau risg presennol **Gosodiadau'r digwyddiad** (ymdrin â phob un) 1. gwasanaethau yn y lleoliad 2. amgylchedd allanol a digwyddiadau eraill yn y cyffiniau 3. niferoedd a mathau o bobl sy'n mynychu 4. gwybodaeth cyn y digwyddiad – yr holl ffynonellau 5. adnoddau sydd ar gael **Rhanddeiliaid** (ymdrin â lleiafswm o 4) 1. person sy'n gyfrifol am y digwyddiad 2. gwasanaethau argyfwng 3. awdurdod lleol 4. rheolwr llinell 5. staff y digwyddiad sy'n gyfarwydd gyda'r lleoliad 6. staff y digwyddiad sydd ddim yn gyfarwydd gyda'r lleoliad 7. contractwyr 8. darparwyr cludiant 9. cymunedau lleol

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

****Rhanddeiliaid**** 1. person sy'n gyfrifol am y digwyddiad 2. rheolwyr y lleoliad 3. gwasanaethau argyfwng 4. cyrff rheoleiddiol 5. rheolwr llinell 6. staff y digwyddiad sy'n gyfarwydd gyda'r lleoliad 7. staff y digwyddiad sydd ddim yn gyfarwydd gyda'r lleoliad 8. contractwyr 9. darparwyr cludiant

****Dylanwadau a phwysau**** 1. dylanwadau a phwysau cyfundrefnol (mewnol) 2. dylanwadau a phwysau rhanddeiliaid (allanol)

Ymddygiadau

Mae'r ymddygiadau canlynol wrth wraidd cyflenwi gwasanaethau yn y sector diogelwch i wylwyr. Mae'r ymddygiadau yn gofalu bod y mudiad a'r unigolyn yn creu argraff dda ar y cleientiaid.

Mae'n rhaid ichi ddangos eich bod yn cyflawni'r canlynol yn gyson:

1. Adnabod yr angen i fod yn hyblyg er mwyn dwyn i ystyriaeth amgylchiadau newidiol
2. Addasu cynlluniau ac ymatebion fel bo'r angen
3. Blaenoriaethu amcanion a gwaith cynllunio er mwyn gwneud y defnydd gorau posib o amser ac adnoddau
4. Gofalu bod amser i gefnogi eraill
5. Cymryd cyfrifoldeb personol dros weithredu rhai pethau
6. Dangos gonestrwydd, tegwch a chysondeb wrth wneud penderfyniadau
7. Cytuno'n eglur ar beth a ddisgwylir gan bobl eraill a'u hystyried nhw'n gyfrifol am herio ymddygiad cymdeithasol er enghraifft.
8. Ceisio deall disgwyliadau pobl ac unrhyw anghenion ychwanegol a medru bodloni'r rhain
9. Cymryd cyfrifoldeb dros ddiogelwch personol
10. Cymryd balchder mewn cynnig gwasanaeth o safon
11. Ymdrechu i fod yn wyladwrus rhag bygythiadau a pheryglon posib
12. Annog a chefnogi eraill i fanteisio i'r eithaf ar eu galluedd.
13. Defnyddio ystod o ddulliau arwain sy'n briodol i wahanol bobl a sefyllfaoedd
14. Eirioli dros ddiogelwch a lles fel blaenoriaeth wrth gynllunio a rheoli digwyddiadau
15. Cymryd balchder yn eich edrychiad a chydymffurfio gydag unrhyw godau gwisg gan y mudiad neu leoliad
16. Cydymffurfio gyda chod ymddygiad y lleoliad
17. Dangos eich gallu i gynnal cyfrinachedd
18. Dangos ymwybyddiaeth o faterion diogelu
19. Dangos dealltwriaeth o ofynion cyfreithiol sylfaenol yn ymwneud ag amrywioldeb a diogelwch

Sgiliau

Dyma restr o'r prif sgiliau a nodweddion cyffredinol sydd eu hangen er mwyn gofalu am ddiogelwch gwylwyr

1. Gwrando a gweithredu
2. Cyfathrebu geiriol ac aneiriol effeithiol
3. Dylanwadu ar ac argyhoeddi eraill
4. Dirprwyo

5. Diplomyddiaeth

6. Empathi
7. Rhoi grym i eraill
8. Gallu i ddilyn cyfarwyddiadau
9. Arwain drwy esiampl
10. Gwydnwch
11. Rheoli ymddygiad heriol
12. Mentora
13. Ysgogi eraill
14. Trafod a chyfaddawdu
15. Derbyn a chynnig adborth
16. Cynllunio a gwerthuso
17. Gosod amcanion
18. Gwerthfawrogi a chefnogi eraill

Geirfa

Cynlluniau mewn argyfwng

Dylai'r cynlluniau mewn argyfwng drafod ymateb strwythurol a graddedig gyda chanllawiau eglur ynglyn â'r mesurau i'w mabwysiadu mewn amgylchiadau penodol, gan ddwyn i ystyriaeth ffactorau mewnol ac allanol yn benodol i'r cae chwaraeon unigol (fel caiff ei ddisgrifio yn 6ed argraffiad y Canllaw Gwyrdd).

Gosodiadau'r Digwyddiad

Cynnyrch dros dro (seddi, pebyll, cabanau, pontydd, unedau arlwy, generaduron ac ati) angenrheidiol er mwyn cynnal digwyddiad.

*

*

Gweithdrefnau cyfundrefnol

Gweithdrefnau sy'n pennu ffordd caiff lleoliad ei weithredu o ddydd i ddydd. Gall ymdrin â'r canlynol ond nid ydyw wedi'i gyfyngu i hyn: cynllun stiwardio, cynllun meddygol, amserlen weinyddol cynnal a chadw ataliol wedi'i gynllunio, asesiad risg yn ymwneud â thân, gweithdrefnau ar ddydd y digwyddiad, cynlluniau mewn argyfwng, cyfrifiadau mwyafswm posib o bobl, cynlluniau safle a manylion cyfarpar diogelwch.

Dogfennau canllaw perthnasol

Dogfennau cynghori fel y Canllaw Diogelwch ar Gaeau Chwarae (y 'Canllaw Gwyrdd'), Canllaw Diogelwch Digwyddiadau neu Ganllaw Mannau Poblog NaCTSO.

Mwyafswm posib o bobl sy'n ddiogel mewn lleoliad

Y mwyafswm o bobl a all gael eu derbyn mewn lleoliad ac sydd wedi'i gyfrifo yn unol â chanllaw wedi'i gyhoeddi yn defnyddio safonau wedi'u cyhoeddi.

Cysylltiadau â SGC eraill

SKASS14

Cynllunio ar gyfer diogelwch pobl mewn digwyddiadau i wylwyr



SKASS15, SKASS16, SKASS19, SKASS23, SKASS24

Datblygwyd gan	SkillsActive
Dyddiad cymeradwyo	31 Maw 2019
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Maw 2024
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	SkillsActive
RCU gwreiddiol	SKASS14
Galwedigaethau perthnasol	Swyddogion Iechyd a Diogelwch
Cyfes/Set	Diogel wch Gwylwyr
Geiriau Allweddol	cynllun, cyhoeddus, diogelwch, digwyddiad, gwylwr, lleoliad, peryglon, risgiau, rheolaeth, gweithdrefncynllun, cyhoeddus, diogelwch, digwyddiad, gwylwr, lleoliad, peryglon, risgiau, rheolaeth, gweithdrefn